



**CRONFA PROSIECT ADDYSG FFILM  
CANLLAWIAU  
2020**

# CYFLWYNIAD

Ein cenhadaeth yw hyrwyddo sector ffilm a diwylliant ffilm cynaliadwy a fydd yn gweithio i bawb ym mhob rhan o Gymru.

Mae Mae'r alwad agored hon, Cronfa Prosiect Addysg Ffilm, yn gwahodd cynhigion ar gyfer prosiectau eithriadol o addysg ffilm a fydd yn ysbrydoli dysgu am a chyda ffilm.

Mae Mae Ffilm Cymru'n cefnogi prosiectau cyffrous a fydd yn ysbrydoli pobl o bob rhan o Gymru i gael gweld, mwynhau, deall, creu, archwilio a rhannu ffilm gydol eu hoes. Mae addysg ffilm yn chwarae rhan allweddol yn y ffordd rydyn ni'n deall ffilm a sut mae storïau'n cael eu hadrodd trwy'r cyfrwng amlbwrpas hwn. Mae delweddau symudol wedi'n diddori, ein dysgu a'n diddanu am genedlaethau ac mae'r ffordd rydyn ni'n dehongli ffilm yn effeithio ar sut rydyn ni'n gweld y byd o'n cwmpas. Mae ymarfer addysg ffilm yn datblygu'r genhedlaeth nesaf o gynulleidfaoedd ffilm ac yn annog diwylliant ffilm sydd ar agor i bawb. I rai, gall hefyd eu hysbrydoli i gymryd eu camau cyntaf at yrfa mewn ffilm.

Dylai ceisiadau ddangos cynllun darparu clir o weithgareddau (damcaniaethol ac ymarferol) sy'n portreadu gwneud ffilmiau fel ymarfer creadigol ac sydd hefyd yn hyrwyddo gwerth diwylliannol a dealltwriaeth feirniadol o ffilm fel gwaith celf a thestun ohono'i hun.

Rydyn ni'n annog ceisiadau sy'n ceisio goresgyn y rhwystrau presennol sy'n cau pobl allan o addysg ffilm, gan gynnwys prinder sinemâu ac anfanteision cymdeithasol ac economaidd, ac annog y cyfranogiad ehangaf posibl yn niwylliant ffilm Cymru.

Bydd Ffilm Cymru'n gwahodd ceisiadau ddwywaith yn 2020-21. Mae'r terfyn amser ar gyfer ceisiadau fel a ganlyn:

- **27 Tachwedd 2020 (5pm)**
- **29 Ionawr 2021 (5 pm)**

Os bydd amseriad yn dyngedfennol, cysylltwch â Ffilm Cymru i drafod cais allan o rownd. O dan rai amgylchiadau eithriadol, ac yn ôl disgrisiwn Ffilm Cymru, efallai y bydd yn bosibl cynnal asesiad anarferol o'ch cais.

Ma'Mae'r alwad ar agor i geisiadau am hyd at £12,500 (hyd at 75% o gyfanswm y costau) i gefnogi gweithgaredd yn ystod y flwyddyn ariannol yn gorffen ar neu cyn 31 Mawrth 2021.

Mae'r arian sy'n cael ei gynnig yn cynnwys arian loteri, wedi'i ddirprwyo gan Sefydliad Ffilm Prydain, ac arian sy'n cael ei reoli gan Ffilm Cymru gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a Sefydliad Ffilm Prydain.

# BETH YW BETH YW ADDYSG FFILM?

Mae Ffilm Cymru'n diffinio addysg ffilm fel dysgu sy'n annog pobl i weld, mwynhau, deall, creu, archwilio a rhannu ffilm gydol eu hoes.

Yn ôl ein diffiniad ni, mae addysg ffilm yn golygu dilyn y meysydd canlynol o ddysgu:

- Ymarfer creadigol – Archwilio gwneud ffilm fel ymarfer creadigol, dangos y broses o sgrïpt i'r sgrin, galluogi pobl i ddefnyddio ffilm yn greadigol eu hunain.
- Dealltwriaeth Feirniadol – Creu cyfleoedd i wylïo, dadelfennu a thrafod ffilm a'r problemau sy'n codi, er mwyn datblygu iaith a llythrennedd ffilm.
- Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol – Datblygu cynulleidfaoedd ar gyfer ffilmiau annibynnol yn y dyfodol ac annog y gyfranogaeth helaethaf posibl yn niwylliant ffilm Cymru.

Ers 2006, mae Ffilm Cymru wedi cefnogi addysg ffilm yng Nghymru drwy brosiect galwad agored a chydweithio'n strategol gyda sefydliadau cenedlaethol eraill gan gynnwys Into Film Cymru. Yn ystod 2014-15, bu Sefydliad Ffilm Prydain yn cydweithio i gyhoeddi 'Fframwaith ar gyfer Addysg Ffilm' ac rydyn ninnau hefyd yn rhannu'r un egwyddorion sylfaenol. collaboration to articulate a 'Framework for Film Education' whose fundamental principles we share:

- The PwyPwysigrwydd prosiectau addysg ffilm cynhwysol a hygyrch sy'n archwilio prosesau damcaniaeth a chreadigedd ffilm.
- Adnabod gwahanol elfennau penodol mewn ffilm - fel gwaith celf a thestun, a'i hiaith, ei hanes a'i estheteg ei hunan.
- HaHawl i bob plentyn a phobl ifanc i brofi, dysgu ynghylch a gwerthfawrogi ffilm trwy strwythurau dysgu ffurfiol mewn ysgolion a thrwy ffyrdd mwy anffurfiol gartref ac yn eu cymunedau.
- Darllenwch fwy am y 'Fframwaith ar gyfer Addysg Ffilm' yma: <https://www.bfi.org.uk/screening-literacy-film-education-europe>

| FFRAMWAITH ADDYSG FFILM AR GYFER EWROP          |   |   |  |                                  |  |                            |
|---|---|---|--|----------------------------------|--|----------------------------|
| <b>Nod</b>                                      | Ysbrydoli pobl ledled Ewrop a rhoi iddynt y gallu i gael mynediad at ffilmiau, a mwynhau, deall, creu, archwilio a rhannu ffilmiau yn eu holl ffurfiau drwy gydol eu bywydau. |   |  |                                  |  |                            |
| SYNWYRUSRWYDD FFILM                             |   |   |  |                                  |  |                            |
| <b>Dimensiynau allweddol addysg ffilm</b>       | <b>Creadigol</b><br>Prosesau, Arferion, Cyfranogi   |   | <b>Beirniadol</b><br>Prosesau, Arferion, Cyfranogi |                                  | <b>Diwylliannol</b><br>Prosesau, Arferion, Cyfranogi |                            |
| <b>Meysydd dysgu</b>                            | Penodoldebau ffilm  | Prosesau cymdeithasol, personol ac ar y cvd | Ymateb personol beirniadol                         | Ymgysylltu'n ehangach â ffilmiau | Cyd-destun hanesyddol a sefydliadol                  | Dysgu myfyriol             |
| <b>Canlyniadau dysgu</b>                        | Meddylwyr beirniadol  | Crewyr anturus                              | Unigolion mynegiannol                              | Cyfranwyr sensitif               | Ymarferwyr myfyriol                                  | Cydweithwyr gweithgar      |
|   | Archwilwyr hyderus  | Cyfranogwyr cytbwys                         | Cynulleidfaoedd deallus                            | Eiriolwyr brwdfrydig             | Dysgwyr annibynnol                                   | Dinasyddion ymgysylltiedig |
| <b>Profiadau</b>                                | Ymgysylltu â ffilmiau yn eu holl  | Profi ffilmiau yn y sinema                  | Darganfod ffilmiau o'r gorffennol                  | Profi celfyddyd ffilmiau         | Nodi, cwestiynu a myfyrio ar syniadau                | Myfyrio ar ddiwylliannau   |
| Profi cyfleoedd creadigol ym maes creu ffilmiau |   |   |  |                                  |  |                            |
| <b>Awydd am ddysgu gydol oes</b>                | <b>Chwilfrydedd</b>   | <b>Empathi</b>                              | <b>Dyhead</b>                                      | <b>Goddefgarwch</b>              | <b>Mwynhad</b>                                       |                            |
| <b>Cysylltu â bywyd a gwaith</b>                | Datblygiad personol   |   | Cyfrifoldeb dinesig                                |                                  | Cyflogadwyedd  |                            |

# AR GYFER PWY MAE'R GRONFA HON?

Ymarferwyr Addysg Ffilm annibynnol sy'n gweithio yn, ac yn ymestyn, addysg ffilm yng Nghymru.

Mae Ffilm Cymru'n diffinio 'ymarferwyr addysg ffilm' fel unigolion annibynnol (nid rhai sy'n cael eu cyflogi ac nid athrawon mewn ysgolion na sefydliadau addysg bellach nac uwch) sydd â hanes o ddarparu prosiectau addysg ffilm o ansawdd.

Mae croeso i'r sefydliadau neu'r unigolion hynny, sydd heb lawer o brofiad o addysg ffilm, gwblhau Mynegiant o Ddiddordeb. Gall Ffilm Cymru gynghori ar hyfforddiant a / mentoriaeth a allai gryfhau eu cais, os yn berthnasol.

Yn wahanol i gynllun Dysgu Creadigol Cyngor Celfyddydau Cymru, allwn ni ddim derbyn ceisiadau gan ysgolion na sefydliadau addysg. Fodd bynnag, rydyn ni'n croesawu ymholiadau ac rydyn ni'n gallu argymhell ymarferwyr addysg ffilm a allai fod â diddordeb mewn cydweithio gyda chais.

## CRONFA I BETH YW HON?

Mae galwad agored Ffilm Cymru, Cronfa Prosiect Addysg Ffilm, yn gwahodd cynigion ar gyfer prosiectau addysg ffilm eithriadol, cyfranogol sy'n cael eu cynnal y tu fewn neu y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Dylai ceisiadau ddangos cynllun darparu clir o addysg ffilm (damcaniaethol ac ymarferol) a dylid amlinellu gweithgareddau sy'n portreadu gwneud ffilmiau fel ymarfer creadigol ac sydd hefyd yn hyrwyddo gwerth diwylliannol a dealltwriaeth feirniadol o ffilm fel gwaith celf a thestun ohono'i hun.

### GALLWN ARIANNU:

- Graddfeydd ymarferwyr Addysg Ffilm
- Defnyddiau ac adnoddau
- Teithio a threuliau
- Tanysgrifiadau meddalwedd a gwasanaethau ar lein
- Ffioedd siaradwyr allweddol ac arbenigwyr y diwydiant
- Costau swyddfa a gorbenion sy'n uniongyrchol berthnasol i ddarparu'r prosiect addysg ffilm
- Llogi offer, pan nad oes offer mewn perchnogaeth ar gael.
- Hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus a mentora
- Llogi lleoliadau ac offer ar gyfer gweithdai ac i arddangos
- Gweithgaredd monitro a gwerthuso
- Ffioedd ysgrifennu ar gyfer creu adnoddau newydd, yn gysylltiedig â gweithgareddau cyfranogi
- Costau'n gysylltiedig â chynyddu mynediad i gyfranogwyr (e.e. bwrserïau, teithio a lluniaeth)
- Cyfranogi mewn addysg ffilm mewn ysgolion, lleoliadau cymunedol ac ar lein (dylid cofio fod yn rhaid i geisiadau gael eu cyflwyno gan Ymarferwyr Addysg Ffilm ac na allwn ni ariannu ysgolion yn uniongyrchol).

## ALLWN NI DDIM ARIANNU:

- Gweithgaredd sy'n cael ei gynnal y tu allan i Gymru
- Gweithgaredd sydd eisoes wedi'i gynnal neu os talwyd am nwyddau a gwasanaethau cyn dyddiad cau'r cais
- Ysgolion neu sefydliadau addysg yn uniongyrchol
- Gweithgaredd nad yw'n gysylltiedig â ffilm neu ddelweddau symudol
- Cefnogaeth ar gyfer gwariant cyfalaf ar brosiectau
- Gweithgaredd masnachol, gan gynnwys prosiectau sydd angen 'ffi' gan rai sy'n cymryd rhan i wneud elw.

## FAINT O ARIAN SYDD AR GAEL?

**Yn ystod 2020-21, bydd cyfanswm o £38,125 ar gael trwy'r Gronfa Prosiect Addysg Ffilm.**

Bydd hyd at £12,500 y flwyddyn y prosiect ar gael fel grant, gyda therfyn o 75% o gostau'r prosiect ar bob cais. Dylai gweddill y balans gynnwys ffynonellau ychwanegol o arian, incwm o'r prosiect a hefyd gefnogaeth anariannol.

Fel arfer, mae cryn gystadleuaeth am y grant hwn ac felly anogir ymgeiswyr i geisio cael cymaint o arian â phosibl gan bartneriaid trydydd partïon a chael rhagor o bartneriaid gyda ffynonellau gwahanol o incwm i gefnogi eu cais.

## SUT MAE GWNEUD CAIS?

Bydd Ffilm Cymru'n gwahodd ceisiadau ddwywaith yn 2020-21. Mae'r terfyn amser ar gyfer ceisiadau fel a ganlyn:

**27 Tachwedd 2020 (5pm)**

**29 Ionawr 2021 (5 pm)**

Os bydd amseriad yn dyngedfennol, cysylltwch â Ffilm Cymru i drafod cais allan o rownd. O dan rai amgylchiadau eithriadol, ac yn ôl disgrisiwn Ffilm Cymru, efallai y bydd yn bosibl cynnal asesiad anarferol o'ch cais.

## 1. MYNEGIAINT O DDIDDORDEB

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd newydd gysylltu â Thîm Ffilm Cymru i drefnu cyfarfod neu alwad ffôn 'Mynegiant o Ddiddordeb'. Cyfle fydd y sgwrs honno i edrych ar eich prosiect yn ei gyfnodau cynnar ac i ddechrau meddwl sut y gallai eich nodau a'ch amcanion chi gyd-fynd ag egwyddorion sylfaenol y gronfa Prosiect Addysg Ffilm.

Gellir cyflwyno mynegiant o ddiddordeb unrhyw bryd, hyd at un wythnos cyn y dyddiad cau am geisiadau. I ofyn am gyfarfod / galwad ffôn, ebostiwrch y tîm gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon.

## 2. CAIS

Once Unwaith y bydd y sgwrs honno wedi'i cynnal, gellir cyflwyno cais. Gellir lawr lwytho ffurflen gais o wefan Ffilm Cymru.

Bydd yn rhaid i'r cais gynnwys:

- Ffurflen gais wedi'i chwblhau
- Amcanion y prosiect, gyda chynllun darparu dichonadwy
- Cyllideb y Prosiect (Incwm a gwariant a ragwelir)
- CVau a thystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer unigolion a fydd yn darparu'r elfennau cyfranogol allweddol
- Cofrestr Risg
- Polisiau gan gynnwys lechyd a Diogelwch gyda diweddariad Covid-19, Cynaliadwyedd, Plant a Phobl Ifanc, Diogelu Oedolion Bregus a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Gall Ffilm Cymru Wales gynnig cefnogaeth gydol y cais a hefyd egluro'n hegwyddorion ariannu. I gael help, cysylltwch â thîm Ffilm Cymru trwy'r manylion cyswllt isod.

# BETH FYDD YN DIGWYDD NESAF?

## CYFLWYNO CEISIADAU

Mae'n rhaid cyflwyno pob cais i [education@ffilmcymruwales.com](mailto:education@ffilmcymruwales.com) - allwn ni ddim derbyn ceisiadau trwy unrhyw gyfeiriad ebost arall na thrwy'r post.

Anfonir ebost yn cadarnhau derbyn, gyda chyfeirnod y cais a doler i'r ffurflen (anhysbys) Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysedd. Bydd yn rhaid i'r ymgeisydd arweiniol lenwi'r ffurflen honno i gwblhau eich cais. Gallwch ddarllen mwy ynghylch Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysedd Ffilm Cymru yma.

## SUT FYDDWN NI'N ASESU EICH CAIS?

Bydd pob cais am arian yn cael ei ystyried gan banel yn cynnwys Prif Weithredwr, Rheolwr Cynulleidfa ac Addysg a Chydlynnydd Addysg Ffilm Cymru.

Penderfynir pa gais fydd yn derbyn arian, a faint, drwy asesu ceisiadau yn erbyn yr amcanion uchod (fel y'u diffinnir yn yr adran 'Ar gyfer beth mae'r arian hwn?'), asesu pa mor hyfyw yw'r cynnig ac a fyddai'n gwella mynediad at ffilm i gynulleidfa oedd ledled Cymru.

Rhaid rhybuddio y gallai'r broses hon gymryd hyd at chwe wythnos ar ôl y dyddiad cau.

## Y CAMAU NESAF

Rhoddir gwybod i ymgeiswyr llwyddiannus drwy ebost neu dros y ffôn. Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan lythyr yn cadarnhau'r symiau ac yn cynnwys unrhyw wybodaeth neu amodau ychwanegol sydd eu hangen cyn cadarnhau'n derfynol.

Unwaith y bydd yr amodau wedi'u cyfarfod, bydd Ffilm Cymru Wales yn cyflwyno ffurflen hir cytundeb ariannu, yn cynnwys nodau ac amcanon y cais yn ogystal â manylion gofynion ac therfynau amser y prosiect. Bydd hefyd yn cynnwys y broses werthuso a thelerau ad-dalu pe byddai toriad na ellid ei unioni.

Yn anffodus, nid yw Ffilm Cymru'n gallu ariannu pob cais sy'n cael ei gyflwyno ond rydyn ni'n ceisio cynnig adborth i bob cais. Bydd croeso i geisiadau aflwyddiannus ail ymgeisio yn y rowndiau canlynol ar ôl y cyfnod adborth.

## CWYNION, ADBORTH AC YMHOLIADAU

Os hoffech chi gyflwyno adborth neu gwŷn, gellir gweld ein gweithdrefnau yma <http://ffilmcymruwales.com/index.php/about-us/our-policies>

# ADRODD YN ÔL

Bydd gofyn i bob cais llwyddiannus gyflwyno adroddiad terfynol wedi'i hunan asesu o fewn dau fis o gwblhau'r prosiect. Bydd yr adroddiad terfynol yn cynnwys:

- Y Gwerthusiadau Naratif (yn ystyried y llwyddiannau, yr heriau a'r hyn a ddysgwyd)
- Cyllideb Incwm a Gwariant Gwirioneddol
- Data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysedd y cyfranogwyr
- Data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysedd yr ymarferwyr a'r bobl eraill oedd â rhan
- Ffurflen Astudiaeth Achos (yn cynnwys delweddau a deunyddiau cyhoeddusrwydd)

Bydd y tîm Cynulleidfa ac Addysg hefyd yn cysylltu yn ystod y cyfnod paratoi ar gyfer y prosiect, ac yn ystod ei gyfnod cyflawni, i gynnig cefnogaeth a chynghor ar y prosiect. Ymdrechir i ymweld â phob sefydliad a fydd yn cael ei ariannu.

# GWARCHOD DATA

Bydd pob data a fydd yn cael ei gasglu fel rhan o'r Mynegiant o Ddiddordeb, y broses ymgeisio a phan fydd prosiectau llwyddiannus yn cael eu cynnal, yn cael eu casglu yn unol â Pholisiau Diogelu Data a Phreifatrwydd Ffilm Cymru Wales. Gellir cael rhagor o wybodaeth ynghylch y polisi llawn yma: <http://ffilmcymruwales.com/index.php/about-us/our-policies>

# MANYLION CYSWLLT

Rheolir y Gronfa Prosiect Addysg Ffilm gan adran Cynulleidfa ac Addysg Ffilm Cymru.

## **Nicola Munday**

Rheolwr Cynulleidfa ac Addysg  
[nicola@ffilmcymruwales.com](mailto:nicola@ffilmcymruwales.com)

## **Natasha Wilson**

Cydlynnydd Cynulleidfa ac Addysg  
[natasha@ffilmcymruwales.com](mailto:natasha@ffilmcymruwales.com)



# CWESTIYNAU CYFFREDIN

## **Rwy'n athro ac â diddordeb mewn addysg ffilm, alle i ymgeisio?**

Yn anffodus, allwn ni ddim ariannu ysgolion yn uniongyrchol ond fe allwn ni ariannu ymarferwyr addysg ffilm yn gweithio mewn ysgolion. I gysylltu gydag ymarferwyr, rydyn ni'n argymhell yr rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg y gellir eu canfod yma: <https://arts.wales/creative-learning/about-creative-learning/regional-arts-and-education-networks>

Mae Info Ffilm Cymru hefyd yn darparu adnoddau i athrawon yn gweithio gyda ffilmiau yn y dosbarth. Gallwch eu canfod yma: <https://www.intofilm.org/cymru>

## **Beth ellir ei ddefnyddio fel arian cyfatebol?**

Gall arian cyfatebol amrywio o arian o ffynonellau eraill, i incwm ac i amser mewn ffordd arall. Gallai hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gefnogaeth gwirfoddolwyr (os yn briodol), llogi manau ac amser staff.

## **Ble arall alle i ganfod cefnogaeth ar gyfer ffilm yng Nghymru?**

Mae yna lawer o sefydliadau yn gweithio yng Nghymru sy'n cefnogi ffilm:

- Canolfan Ffilm Cymru - rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm y Sefydliad Ffilm Prydeinig, sy'n cefnogi'r sector arddangos yng Nghymru.
- Info Ffilm Cymru
- BAFTA
- Cyngor Celfyddydau Cymru

Mae Ffilm Cymru Wales hefyd yn gartref i Rwydwaith Cymru y Sefydliad Ffilm Prydeinig, sydd â nifer o gynlluniau i gefnogi gyrfaedd gwneuthurwyr ffilmiau. Rydyn ni'n argymhell cysylltu â'r tîm i drafod cyfleoedd ar gyfer digwyddiadau rhwydweithio i wneuthurwyr ffilmiau.

## **A oes raid i fy sefydliad fod â'i bencadlys yng Nghymru?**

Er nad oes raid i bencadlys eich sefydliad fod yng Nghymru, mae'n rhaid i bob gweithgaredd sy'n cael ei gefnogi gael ei gynnal yng Nghymru.

## **Beth fyddai'n digwydd pe byddwn yn colli terfyn amser neu gyfle y tu allan i rownd ariannu?**

Os bydd amseriad yn dyngedfennol, cysylltwch â [Nicola@ffilmcymruwales.com](mailto:Nicola@ffilmcymruwales.com) i drafod cais allan o rownd. O dan rai amgylchiadau eithriadol, ac yn ôl disgrisiwn Ffilm Cymru, efallai y bydd yn bosibl cynnal asesiad anarferol o'ch cais.

# ffilm

CYMRU WALES

[WWW.FFILMCYMRUWALES.COM](http://WWW.FFILMCYMRUWALES.COM)

TRAMSHED TECH  
UNED 6  
STRYD PENDYRIS  
CAERDYDD  
CF11 6BH



**ARIENNIR GAN  
Y LOTERI  
LOTTERY FUNDED**

